

Ystâd y Penrhyn


Roedd teulu bonedd blaenllaw Cymraeg wedi bod yn byw yn y safle lle saif Castell Penrhyn nawr ers cymaint yn ôl â'r drydedd ganrif ar ddeg. Roedd gan y teulu hwn gysylltiadau cryf iawn â thywysogion Gwynedd. Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ochrodd Gwilym ap Gruffydd, a etifeddodd yr ystâd, gydag Owain Glyndwr, tywysog Cymru, i ymladd yn erbyn

coron Lloegr. Yn sgil hynny, atafaelwyd ei dir. Pharodd hynny ddim yn hir, ac yn fuan wedyn, medrodd gael ei dir yn ôl ac fe aeth ati i ehangu'r ystâd.

Mae'n bosib mai ef a adeiladodd y neuadd ganoloesol ym Mhenrhyn. Roedd yr olaf o linach Gruffydd, Piers Griffith, yn fôr leidr a Bardd Cymraeg adnabyddus, ac mae'r farddoniaeth sydd wedi goroesi ganddo yn ymwneud â'r môr. Cipiodd long Sbaeneg wedi'i llwytho ag olew olewydd a daeth â hi yn ôl i Abercegin (Porth Penrhyn yn ddiweddarach).



Castell Penrhyn



Etifeddodd Richard Pennant yr ystâd yn y pen draw (gweler rhif 3). Yn ystod y 1820au, adeiladwyd Castell Penrhyn, 'y castell ffantasi mwyaf anhygoel a adeiladwyd ym Mhrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', i ddangos cyfoeth a grym anferth teulu'r Penrhyn. Heddiw, mae'r castell yn amgylchynu'r yr hyn sy'n weddill o'r tŷ canoloesol.

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.